## Planhigion blodeuol

Mae'r grŵp mwyaf o blanhigion yn blanhigion blodeuol. Maent yn cynnwys coed yn ogystal â blodau.

Eu prif rannau yw'r blodau, y dail, y coesyn a'r gwreiddiau



*Mae gan lawer o flodau liwiau llachar ac arogl cryf. Maent yn denu pryfed i'r hylif melys o'r enw neithdar y tu mewn.*

*Mae gan ddail gemegyn y tu mewn sy'n helpu i wneud bwyd.*

*Mae'r coesyn yn cynnal y planhigyn. Mae dŵr a bwyd yn teithio o'r gwreiddiau, trwy'r coesyn ac yna i holl rannau eraill y planhigyn.*

*Mae gwreiddiau'n dal planhigyn yn unionsyth ac yn cymryd dŵr a mwynau i mewn.*

### Coed



Mae coeden yn blanhigyn gyda choesyn coediog trwchus o'r enw boncyff.

Mae coeden yn tyfu o'i chanol allan. Mae un cylch o bren newydd yn cronni bob blwyddyn gan wneud y boncyff yn fwy trwchus.

### Edrych ar ddail



Mae dail yn cynnwys cemegyn gwyrdd sy'n amsugno golau haul i helpu i wneud bwyd.
Pan fydd dail yn marw, mae'r cemegyn gwyrdd yn pylu ac maen nhw'n newid lliw.

Mae sawl math o goed yn colli eu dail i gyd bob hydref. Fe'u gelwir yn goed collddail. Gelwir coed nad ydyn nhw'n colli eu dail i gyd ar unwaith yn fythwyrdd.

### Y tu mewn i flodyn

Mae blodau'n cynnwys rhannau a all wneud hadau a fydd yn tyfu i fod yn blanhigion newydd.

I wneud yr hadau, mae'n rhaid cario llwch melyn, o'r enw paill, o un blodyn i'r llall. Mae'r gwynt a'r anifeiliaid bach yn gwneud y gwaith hwn.



*Mae paill yn glynu wrth gorff gwenyn wrth iddo yfed neithdar. Bydd hyn yn rhwbio i ffwrdd ar y blodyn nesaf y bydd yn ymweld ag ef.*

### Ffrwythau

Pan fydd y petalau yn cwympo i ffwrdd, mae blodau'n tyfu i fod yn ffrwythau.

Mae ffrwythau'n cynnwys hadau â all dyfu i fod yn blanhigion newydd.

Nid yw pob ffrwyth yn fwytadwy, er enghraifft mês yw ffrwyth coeden dderw.



### Coesau

Mae coesau'n dal y dail uwchben y ddaear ac yn cludo dŵr a bwyd i rannau eraill y planhigyn.

Mae yna lawer o wahanol fathau o goesynnau, er enghraifft mae coesau planhigion mefus yn tyfu ar hyd y ddaear ac mae coesau planhigion eiddew yn tyfu ar hyd planhigion eraill.

### Gwneud bwyd

Mae planhigion gwyrdd yn defnyddio egni'r haul i wneud bwyd yn eu dail.

Maen nhw'n troi dŵr a mwynau o'r pridd a nwy carbon deuocsid o'r awyr yn siwgr.

Mae siwgr yn fwyd i blanhigion. Ffotosynthesis yw'r enw ar y broses hon.

### Gwreiddiau

Wedi'i guddio o dan y ddaear, mae rhwydwaith o wreiddiau'n ymledu trwy'r pridd. Mae'r gwreiddiau'n dal y planhigyn yn gadarn yn y ddaear. Mae dŵr a mwynau toddedig yn mynd i mewn i'r gwreiddiau trwy'r gwreiddiau bach. Po fwyaf o wreiddiau sydd gan blanhigyn, y mwyaf o ddŵr a mwynau y gall eu cymryd.

### Golau'r haul



Os edrychwch i lawr ar blanhigyn oddi uchod gallwch weld bod ei ddail wedi'u trefnu fel bod cymaint o olau haul yn disgyn ar bob un â phosib. Po fwyaf y golau haul y mae pob deilen yn ei dderbyn, y mwyaf o siwgr y gall y planhigyn ei wneud.

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.